Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Gwirfoddolwr Chwaraeon RhCT – Connor

Mae Connor yn fyfyriwr yng Ngholeg Y Cymoedd. Yn rhan o'n partneriaeth gyda'r coleg mae nifer o fyfyrwyr sy'n astudio chwaraeon yn ein helpu ni i gyflwyno ein gwyliau a'n cystadlaethau. Cefnogodd Connor un o'n gwyliau a dechreuodd siarad ag un o'n swyddogion am wirfoddoli. Mynegodd angerdd am hyfforddi pêl-droed a dywedodd wrthyn ni ei fod eisiau ennill rhagor o brofiad. Roedden ni wrthi'n recriwtio hyfforddwyr ar gyfer prosiect newydd roedden ni'n ei gyflwyno mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth CBDC. Ymunodd Connor a chyflwyno sesiynau pêl-droed hwyl i blant dan 7 oed drwy gydol gwyliau'r haf. Arweiniodd ei angerdd a'i ymrwymiad i'r prosiect yma at ddod yn hyfforddwr cyflogedig gydag Ymddiriedolaeth CBDC ac erbyn hyn mae'n arwain gwersylloedd pêl-droed. Er mwyn parhau â'i hyfforddiant, cymerodd Connor rôl hyfforddwr cynorthwyol gyda chlwb pêl-droed lleol yn cefnogi'r tîm dan 9 oed. Mae e wedi aros mewn cysylltiad â ni ac wedi cytuno i gefnogi prosiectau pêl-droed eraill sydd ar y gweill gyda ni.

*“Ers gwirfoddoli gyda Chwaraeon RhCT mae ei hyder fel hyfforddwr wedi tyfu ac mae e'n arwain mewn modd hamddenol, gan gadw rheolaeth. Mae'r profiad wedi caniatáu iddo sicrhau fod ei gyflawniad academaidd a phersonol o safon uchel. A minnau'n diwtor iddo, mae gweld ei ddatblygiad wedi bod yn bleser.”*

*Rhys Williams, Darlithydd yng Ngholeg Y Cymoedd*

*“Mae Connor wedi magu hyder ers dechrau gwirfoddoli. Mae gwirfoddoli wedi ei helpu i ddysgu bod yn fwy gweithgar, dibynadwy a phrydlon ac mae'r rhain yn rhinweddau da sydd eu hangen ar gyfer dyfodol llwyddiannus yn y byd gwaith.*

*Mae Connor wedi mwynhau ei brofiad ac mae'n gobeithio parhau i wirfoddoli. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i Chwaraeon RhCT ac Ymddiriedolaeth CBDC am yr holl gefnogaeth ac arweiniad y mae e wedi eu derbyn.”*

*Ruth, mam Connor*

RHONDDA CYNON TAF